

PWYLLGOR CRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

3 Gorffennaf 2019

Yn bresennol: Cynghorydd K Doolin (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)
Dr M Havard, Dr R Plummer, Cynghorydd M Williams,
Cynghorydd S Yelland; Mr P Howe (Cyngor Sir Penfro) a Ms L
Livock (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro).

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.35pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M James, Ms S Green a Mr G Lloyd-Jones (Cyfoeth Naturiol Cymru).

2. Datgan Buddiannau

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2019 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2019.

4. Diweddariad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF)

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Iwan Thomas, Prif Weithredwr PLANED, i'r cyfarfod; atgoffwyd yr Aelodau mai PLANED bellach sy'n gyfrifol am weinyddu'r gronfa o ddydd i ddydd ar gyfnod prawf o 15 mis.

Roedd yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn amlinellu'r 3 chais a wnaed i'r gronfa ers y cyfarfod blaenorol. Hefyd wedi'i gynnwys oedd cais gan y Ganolfan Hynod Wyllt yr oedd y Pwyllgor wedi'i ohirio yn ei gyfarfod diwethaf, gan ofyn am gyflwyno gwybodaeth ychwanegol a chyflwyniad pellach. Dywedwyd yn y cyfarfod, oherwydd anawsterau cynllunio, bod y cais SDF hwn bellach wedi'i dynnu'n ôl. Hefyd roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y camau ymlaen a gymerwyd ar y prosiectau a gymeradwywyd yn flaenorol.

Aeth y Rheolwr Cyllid rhagddo i egluro bod y gyllideb a ddyrannwyd i'r gronfa ar gyfer 2019/20 yn £100,000, ond oherwydd y symiau o arian yr ymrwymwyd iddynt eisoes, balans y cyllid SDF oedd ar gael oedd £76,400. Felly pe bai'r Pwyllgor yn dymuno, dywedwyd bod digon o gyllid ar gael i gymeradwyo pob un o'r prosiectau oedd ger eu bron y diwrnod hwnnw.

Gwnaed sylwadau ar sut y gellid gwella'r ffurflen gais, nid yn unig i helpu'r Aelodau i werthuso'r ceisiadau yn well a galluogi swyddogion i roi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus, ond hefyd i wella a/neu wneud profiad yr ymgeisydd yn haws ar ddechrau'r broses. Atebodd Mr Thomas drwy ddweud bod PLANED wedi parhau â phroses oedd wedi gweithio'n dda i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn flaenorol. Fodd bynnag, byddai'n hapus i ystyried unrhyw awgrymiadau wrth baratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.

Bu peth trafodaeth ynghylch strategaeth ariannu'r SDF a'r adborth ar lwyddiant neu ddiffyg llwyddiant prosiectau dros y blynyddoedd. Dywedodd y Rheolwr Cyllid ei fod yntau a Mr Thomas wedi cael trafodaeth ar y mater hwn yn ddiweddar. Roedd y cytundeb gweinyddu cyfredol yn ei le tan fis Mawrth 2020 a byddai dadansoddiad o'r prosiect yn cael ei gynnal cyn i'r cytundeb ddod i ben. Dywedodd hefyd bod adolygiad o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy 2000-2016 wedi'i gynnal gan Swyddog blaenorol y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, a chytunwyd y byddai hyn yn cael ei gylchredeg i'r Pwyllgor. Byddai'r strategaeth SDF ehangach yn cael ei hystyried yn y cyfarfod nesaf.

NODWYD.

5. Ceisiadau am gyllid o dan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Ystyriodd y Pwyllgor 3 cais newydd am gyllid o dan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Ystyriwyd y ceisiadau yn fanwl yn erbyn meini prawf asesu'r gronfa, yn dilyn cyflwyniad byr gan ymgeiswyr y tri prosiect. Atgoffwyd yr Aelodau bod nifer o'r ceisiadau oedd wedi'u cynnwys ar yr agenda y diwrnod hwnnw yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif ac na ddylid felly eu rhannu ymhellach na'u dosbarthu.

Cyfeirnod	Enw'r Prosiect	Cyflwyniad gan	Sefydliad
SDF/2019/3	Argraffu Cynaliadwy	Kate Kekwick	KlickKlack Print
SDF/2019/4	Bragdy Hen Ffermdy Tyddewi	Mark ac Emma Evans	
SDF/2019/5	Cymdeithas Budd Cymunedol Câr-y-Môr – Dechrau Busnes	Owen a Megan Haines	Cymdeithas Budd Cymunedol Câr-y-Môr

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor mai Aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol fydd yn gwneud y penderfyniadau yn ôl cylch gorchwyl y Pwyllgor, gan gymryd barn yr Aelodau Ymgynghorol hynny oedd yn bresennol i ystyriaeth.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD**:

- (a) bod swm llawn y cyllid y gofynnwyd amdano yn cael ei roi i'r ceisiadau canlynol, cyn belled ag y cydymffurfir ag amodau arferol y grant ac unrhyw gafeatau ychwanegol y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod (a fanylir isod):
 - (i) SDF/2019/3 – Argraffu Cynaliadwy – yn amodol ar gael caniatâd cynllunio a llwyddiant ceisiadau am gyllid cyfatebol. Hefyd, yn amodol ar gynnwys carreg filltir ynghylch adrodd ar ddatblygu/cyflwyno inciau argraffu sy'n fuddiol i'r amgylchedd.
 - (ii) SDF/2019/4 - Bragdy Hen Ffermdy Tyddewi.
- (b) gwrthod y cais canlynol:
 - (i) SDF/2019/5 – Cymdeithas Budd Cymunedol Câr-y-Môr – Dechrau Busnes.